Urdd y Myfyrwyr
Prifysgol Aberystwyth University
Guild of Students

# Cyngor y Cynrychiolwyr Cwrs

**Dydd Mercher, 29ain Chwefror 2012**
**1.30pm – 3.30pm**
**Prif Ystafell, Urdd y Myfyrwyr**

# COFNODION

## Agenda

1. Croeso ac Ymddiheuriadau
2. Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf a Gynhaliwyd 14eg Rhagfyr 2011
3. Materion sy'n Codi
    a. Cyfeiriadau Ebost Cynrychiolwyr
    b. Siarter y Myfyrwyr
    c. Cynrychiolwyr Cyfadran
    d. Cofnod Myfyrwyr
4. Adroddiadau
    a. Swyddog Addysg
    b. Cydlynydd Cynrychiolaeth a Phrofiad Myfyrwyr
    c. Cynrychiolwyr
5. Materion y Cadeirydd
    a. Gwobrau Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr
    b. Man Dysgu B23
6. Materion y Cynrychiolwyr
7. Unrhyw Fater Arall
8. Cyfarfod Nesaf

**Presennol:** Jessica Leigh (JL); Robyn Womack (RW); Adam Smith (AS); Paul Arnold (PA); Peter Gosiewski (PG); Zoe McWilliams (ZM); Anna Gabriella Sivertsen (AG); Winnie Karanja (WK); Gemma Western (GW); Peter Faraday Weller (PF); Adam Tucker (AT); Trygve Børsting (TB); Lucy Sharman-Davies (LS); Claire James (CJ); Keith Winqvist (KW); John Balfour (JB); Rhiannon Morris (RM); Joe MacMahon (JM); Kerry-Ann Pimlot (KP)

**Hefyd yn Bresennol:** Sam Reynolds (SR)

**Ymddiheuriadau:** Helena Rogers; Sarah Hall; Cassandra Baggs; Matthew Evans; Ben Meakin; Becky Wale; Hannah Jones; Barney Alldridge; Chloe Reynolds

**Absennol:** Nozuko Langa; Khaled Mabrouk; Will Pryce

## 1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Nodwyd yr ymddiheuriadau a gafwyd. Cymerodd Claire James le Hannah Jomes fel ail gynrychiolydd yr Adran Hanes a Hanes Cymru. Croesawodd y Cadeirydd dri aelod newydd i'r pwyllgor: Zoe McWilliams a John Balfour o IGES, a Helena Rogers o Astudiaethau Gwybodaeth.

**2. Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf a Gynhaliwyd 14eg Rhagfyr 2011**

Nodwyd camsillafu enw Lucy Sharman-Davies. Heblaw hynny, pasiwyd y cofnodion fel adlewyrchiad cywir o'r cyfarfod blaenorol.

**3. Materion sy'n Codi**

**a. Cyfeiriadau Ebost Cynrychiolwyr**

Cyflwynwyd dau ddewis i'r Cyngor: naill ai cael un cyfrif ebost y gall pob cynrychiolydd mewn adran gael mynediad iddo, neu gyfeiriad anfon ymlaen a fydd yn anfon bob bost i bob cynrychiolwydd mewn adran. Ystyriwyd y ddau'n anymarferol gan nad ydynt yn anfon yr ohebiaeth gywir i'r cynrychiolydd priodol. Cynigiwyd yn lle hynny y dylai SR weithio i hysbysebu cyfeiriadau ebost unigolion yn well, gan sicrhau y gall myfyrwyr gysylltu â'r cynrychiolydd mwyaf priodol.

Awgrymodd JB hefyd y gellid cysodi enwau eraill (h.y. 'IGES.postgraduate.rep@aber.ac.uk') y gellid ei aseinio i gyfrif y cynrychiolwyr newydd bob blwyddyn. Cytunodd SR i ystyried hyn pan fydd yn adolygu system y Cynrychiolwyr Cwrs ar gyfer y flwyddyn nesaf. Dywedodd y cynrychiolwyr hefyd fod defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol iawn i gasglu barn a phroblemau.

**b. Siarter y Myfyrwyr**

Dywedodd JL wrth y pwyllgor fod Siarter y Myfyrwyr newydd ar y gweill ac y byddai'n ymgynghori'n eang yn yr wythnosau nesaf. Awgrymwyd y byddai posteri mawr gyda hawliau a chyfrifoldebau myfyrwyr yn cael eu cynhyrchu er mwyn eu harddangos ar adeiladau'r Brifysgol, fel mewn sefydliadau eraill. Dywedodd JL hefyd wrth y Cyngor fod siarteri myfyrwyr yn rhan allweddol o ymgyrch CCAUC (Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru) i sicrhau undebau myfyrwyr gweithgar ac undebau myfyrwyr sydd wedi'u cyllido'n briodol. Cytunodd y cynrychiolwyr mai agwedd gyson tuag at hawliau a disgwyliadau yn y Brifysgol drwyddi draw sydd orau, ac y byddai siarter y myfyrwyr newydd yn gam positif.

**c. Cynrychiolwyr Cyfadran**

Eglurodd SR nad oedd ond un cyfarfod arall o fwrdd y Cyfadrannau eleni; ni fydd etholiadau ar gyfer Cynrychiolwyr Cyfadran yn cael eu cynnal. Bydd cynrychiolwyr yn cael gwybod am drefniadau 2012/13 unwaith maent wedi'u cadarnhau.

**d. Cofnod Myfyrwyr**

Cysylltodd SR â'r tîm BIS yn y Gwasanaethau Gwybodaeth i gael mwy o wybodaeth ar ddefnydd y Cofnod Myfyriwr i gofnodi absenoldebau, yn dilyn ymholiad gan PG yn y Cyngor diwethaf. Ymatebodd y tîm BIS gydag

ystadegau, a welir isod, a oedd yn dangos defnydd cynyddol y system. Gyda hyn mewn golwg, ni fydd yr Urdd yn galw i gael gwared arni, a bydd yn monitro a geir mwy o gywirdeb o ganlyniad i fwy o ddefnydd ai peidio.

**Ffigyrau Defnydd Adrodd Absenoldebau (Ffynhonnell: BIS, Gwasanaethau Gwybodaeth]**

Nifer o fodiwlau y mae absenoldebau wedi'u cofnodi:
2010 562
2011 675
2012 411 (hyd yma)

Dadansoddiad yn ôl math y gweithgaredd, cyfanswm gweithgareddau;

| Blwyddyn Academaidd | Darlith | Seminar | Ymarferol |
|---|---|---|---|
| 2010 | 3928 | 879 | 322 |
| 2011 | 5747 | 901 | 515 |
| 2012 | 3079 | 639 | 209 |

Dyma'r Adrannau sy'n defnyddio'r system ar hyn o bryd:

Saesneg
Hanes
IBERS
Gwleidyddiaeth Ryngwladol
Y Gyfraith
Mathemateg
Cyfrifiadureg
IGES
Ffiseg
Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff
Astudiaethau Gwybodaeth
Seicoleg
Rheolaeth a Busnes
Theatr, Ffilm a Theledu
Addysg a Dysgu Gydol Oes

## 4. Adroddiadau

### a. Swyddog Addysg

Cyflwynodd JL adroddiad byr i'r Cyngor ar ei gweithgareddau ers mis Rhagfyr. Yn ogystal â llawer o achosion myfyrwyr, mae JL wedi bod yn gweithio i gwblhau'r ymgyrch 'Adborth ar Adborth', a ddaeth i ben llanw gyda llythyr at y Dirprwy Is-ganghellor dros Ddysgu, Addysgu a Chyflogadwyedd. Roedd y cynrychiolwyr yn hapus gyda'r ymgyrch hon, gan amlygu'r angen i adborth fod yn broses ddwy-ffordd, fel y gwyddai myfyrwyr sut i weithredu ar sylwadau. Amlygwyd hefyd fod ansawdd a dychweliad adborth wedi'u hamlygu fel problemau yn ddiweddar yng Nghyflwyniad Ysgrifenedig y Myfyrwyr a gyflwynir i'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd.

### b. Cydlynydd Cynrychiolaeth a Phrofiad Myfyrwyr

Ers mis Rhagfyr, mae SR wedi bod yn gweithio ar Gyflwyniad Ysgrifenedig y Myfyrwyr i'r ASA, sydd bellach wedi'i gwblhau. Diolchodd SR i'r cynrychiolwyr a gynorthwyodd gyda'r grwpiau ffocws ac eglurodd y byddai'r adroddiad terfynol ar gael unwaith mae wedi'i gyfieithu.

**c. Cynrychiolwyr**

Ni chafwyd adroddiadau'r cynrychiolwyr a gwahoddodd y Cadeirydd i'r cynrychiolwyr gyfrannu yn ystod yr eitemau oedd i ddod.

**5. Materion y Cadeirydd**

**a. Gwobrau Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr**

Eglurodd JL y byddai'r gwobrau hyn yn cael eu cynnal am y tro cyntaf yn Aberystwyth yn y flwyddyn sy'n dod. Mae dyddiad wedi'i osod; arian wedi'i sicrhau gan y Brifysgol, a chategorïau'r gwobrau wedi'u penderfynu. Bydd enwebiadau yn agor tua diwedd mis Mawrth, a bydd mwy o wybodaeth ar gael maes o law.

**b. Man Dysgu B23**

Amlygodd JL nifer o faterion gyda man dysgu B23 yn Llandinam wedi i'r Urdd gael cyfres o gwynion am fyfyrwyr yn cael eu hel allan o'r ystafell oherwydd darlithoedd. Er bod y cynrychiolwyr yn deall y flaenoriaeth a roddir i ddarlithoedd, dywedodd llawer y gofynnir yn fympwyol i fyfyrwyr sy'n gwneud gwaith i adael yr ystafell. Cytunodd JL y dylai gwybodaeth ar argaeledd gael ei gyhoeddi'n eang, ac y dylid annog darlithwyr i ganiatáu astudio tawel yng nghefn yr ystafell.

**6. Materion y Cynrychiolwyr**

**a. Treth y Cyngor i Fyfyrwyr PhD**

Cododd JB y ffaith nad yw ymgeiswyr PhD yn eu trydedd flwyddyn wedi'u cofrestru fel myfyrwyr, gan olygu fod tâl am ddefnyddio'r llyfrgell ac nad ydynt wedi'u heithrio o dreth y cyngor. Crybwyllodd JB waith y *Courier* yn amlygu'r mater hwn. Dywedodd JL ei bod hi wedi cwrdd â'r Deon dros Astudiaethau Uwchraddedig yn ddiweddar, a chanfyddodd fod trefniadau i fyfyrwyr Aberystwyth yn cymharu'n wael â threfniadau prifysgolion eraill. Bydd y mater yn cael ei godi yn Senedd y Brifysgol, ac mae JL wedi bod mewn cysylltiad â Rebecca Davies, Dirprwy Is-Ganghellor dros Wasanaethau Myfyrwyr a Staff.

**b. Ad-drefnu Campysau**

Cododd JB y pwynt fod llawer o sïon wedi bod yn cylchredeg am adnoddau ac adrannau amrywiol yn symud i gampysau eraill, a gofynnodd a oedd yna unrhyw gynlluniau pendant. Roedd cynrychiolwyr eraill wedi clywed sïon eraill, ac roedd y diffyg gwybodaeth gan y Brifysgol am unrhyw gynigion arfaethedig yn peri pryder. Dywedodd JL wrth y cynrychiolwyr nad oedd cynlluniau ffurfiol wedi dod i sylw'r Urdd eto, ond byddai'n ymgynghori â'r Brifysgol i gael gwybod y diweddaraf am unrhyw gynlluniau o'r fath.

**c. Materion â Blackboard**

Amlygodd KP a RM faterion am ddefnydd Blackboard yn eu hadrannau, yn dilyn ymlaen o bryderon a godwyd yn y Cyngor diwethaf. Atgoffodd SR y cynrychiolwyr fod gan y Brifysgol bolisi i'r sefydliad drwyddo draw am ddisgwyliadau lleiaf Blackboard, ac yn wir, codwyd y mater yng Nghyflwyniad Ysgrifenedig y Myfyrwyr. Yn y lle cyntaf, gofynnwyd i gynrychiolwyr godi materion o'r fath yn eu cyfarfodydd PYSM a monitro defnydd ar draws eu hadrannau. Awgrymodd AT hefyd y byddai rhaglen ffonau symudol i fynd ar Blackboard hefyd yn ddatblygiad cadarnhaol.

**d. Ymwybyddiaeth o Gynrychiolwyr Cwrs**

Mynegodd llawer o gynrychiolwyr eu bod yn teimlo nad oes llawer yn gwybod amdanynt, a bod yna ddiffyg ymwybyddiaeth cyffredinol yn y Brifysgol am system y Cynrychiolwyr Cwrs. Eglurodd SR y bydd cyhoeddusrwydd yn gwella'n raddol wrth i'r Brifysgol symud tuag at system sydd wedi'i chyd-drefnu'n fwy, a bod cynlluniau ar y gweill i gyflawni hyn. Yn y cyfamser, atgoffwyd cynrychiolwyr am ffyrdd o hyrwyddo'u hunain, gan gynnwys cyhoeddiadau mewn darlithoedd, y cyfryngau cymdeithasol a phosteri. Atgoffodd SR y cynrychiolwyr hefyd y gallant ofyn am gymorth unrhyw bryd, ond eu bod yn gyd-gyfrifol am gyhoeddusrwydd.

**7. Unrhyw Fater Arall**

Ni chodwyd dim eitem arall i'w thrafod.

**8. Cyfarfod Nesaf**

Cynhelir y cyfarfod nesaf tua dechrau mis Mai a bydd y cynrychiolwyr yn cael gwybod mewn da bryd.

**Gorffennodd y cyfarfod am 3.00pm**